OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1780 (Cy.169)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Gorffennaf 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Gorffennaf 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at Reoliad y Comisiwn (EC) 616/2009(**2**) a weithredir gan y Gorchymyn hwn gael effaith fel cyfeiriadau at y Rheoliad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

(**1**) 1981 p. 22. Mae swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Minister" a "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru.

(**2**) OJ Rhif L181, 14.7.2009, t.16.